# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Chwefror 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad yr holl Unedau o fewn yr Adrannau y mae gennyf gyfrifoldeb drostynt.

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ffigyrau proffil amgen ar gyfer ail broffilio'r Cynllun Rheoli Carbon isod:

| 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 49,740 | 15,260 | 40,000 | 50,000 | 155,000 |

Gweler gwybodaeth bellach yn 5.5 a 5.6 o'r adroddiad yma.

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PERFFORMIAD

4.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

### 4.2 ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

4.2.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn.

4.2.2 Ar y cyfan mae perfformiad y mesurau yn dda a 'rwy'n fodlon gyda'r cynnydd ar gyfer y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (STS/005a**) lle mae'r perfformiad ar ddiwedd mis Tachwedd o 76.2 yn gymharol a 2015/16 ac yn rhagori ar ffigyrau'r ddwy flwyddyn flaenorol. Er hyn mae meddylfryd ymysg nifer ar y stryd bod y strydoedd yn flêr ac rwy'n bryderus nad oes cysondeb gyda'r mesur. O ganlyniad rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar y sefyllfa a sut y gellir cyfarch y farn ar y stryd.

4.2.3 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw i'r pwyntiau canlynol.

4.2.4 Nodir bod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (WMT/009)** 62.28% ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â 54.3% yn 2013/14, 55.25% yn 2014/15 a 58.70% yn 2015/16.

4.2.5 Gwelir bod y **Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi (WMT/004)** wedi lleihau eto i 27.9% o'i gymharu â 34.24% yn 2015/16, 43.33% yn 2014/15 a 45.95% yn 2013/14.

4.2.6 Fel y soniais yn fy adroddiad perfformiad diwethaf yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yw bod eu gwastraff yn cael ei gasglu ar y dyddiad cywir. Mae gwaith yn parhau i ddadansoddi a deall y ffigyrau ynghylch y nifer o gasgliadau sydd wedi eu methu fel ein bod yn gallu adnabod y rhesymau dros hynny a rhoi sylw i'r

agweddau y gallwn ddylanwadu arnynt. Byddwn yn adrodd ar y mesur pan fydd y gwaith yn aeddfed.

4.2.7 Ers y 9fed o Ionawr, 2017 mae angen talu ffi am gasglu'r **Gwasanaeth Gwastraff Gardd**. Mae nifer sylweddol iawn o drigolion eisoes wedi talu'r ffi gyda dros **10,000 taliad** wedi ei dderbyn ar ddechrau Ionawr, 2017.

4.2.8 Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir a nod y **Gwasanaeth Priffyrdd** yw cyflawni'r nod hynny gan geisio cynnal safon ein ffyrdd. Gyda'r gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw mae'n anorfod y bydd elfen o ddirywiad.

4.2.9 Yn flynyddol y caiff y mesurau ar safon y ffyrdd eu mesur ac yn 2016/17 mae 3.5% o brif ffyrdd (dosbarth A), 3.9% o ffyrdd dosbarth B a 15.2% o ffyrdd dosbarth C y Sir yn ddiffygiol. Fel yr ydym wedi ei ragweld mae'r canran o ffyrdd diffygiol wedi cynyddu o 3.1% ar gyfer brif ffyrdd (dosbarth A) ac wedi parhau ar yr un lefel o 3.9% ar gyfer ffyrdd dosbarth B yn 15/16. Dylid nodi fod y ffigyrau am gyfnod cyn i ni weithredu'r arbedion yn y gyllideb felly mae'n debyg y byddwn yn gweld cynnydd yn y canran o ffyrdd diffygiol yn y dyfodol.

4.2.10 Er bod gwelliant bychan yn safon ffyrdd dosbarth C nodir mai dim ond 50% o ffyrdd y dosbarth hwn sy'n cael eu harchwilio yn flynyddol ac felly nid yw'n yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa. Byddwn a gwell dealltwriaeth o'r gwir sefyllfa ar gyfer ffyrdd dosbarth C yn dilyn archwiliadau 2017/18. Nid yw'r wybodaeth ar gyfer Cymru gyfan wedi ei gyhoeddi eto ac felly nid oes modd cymharu hefo awdurdodau eraill.

4.2.11 Nodir bod mesurau perfformiad newydd yn cael eu datblygu ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd fel rhan o'r Ymyrraeth Ffordd Gwynedd sy'n cymryd lle ar hyn o bryd. Byddwn yn adrodd ar y rhain pan fydd y gwaith yn aeddfed.

**4.3 ADRAN YMGYNGHORIAETH**

4.3.1 Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw.** Nodir fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar hyn o bryd gyda'r tafluniad diweddaraf ar gyfer elw yn erbyn y targed yn **£5,313.**

4.3.2 Fel rwyf wedi nodi o'r blaen mae pwyslais y mwyafrif o'r Unedau o fewn yr Adran hon ar greu incwm ond mae agweddau o waith yr **Uned Rheolaeth Adeiladu** a'r **Uned Dŵr ac Amgylchedd** yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion Gwynedd.

4.3.3 Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu gan wneud yn siŵr fod adeiladau yn ddiogel, iach, yn effeithlon o ran defnydd ynni ynghyd â darparu cyfleusterau i'r anabl.

4.3.4 Dengys y wybodaeth ar gyfer bodlonrwydd y cwsmer (**Mesur BC-1)** bod y sgôr cyfartalog yn 9.3 allan o 10 ar ddiwedd chwarter 3 tra bod **Canran o geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn (BC-2)** yn 91.7%. Mae perfformiad y mesurau hyn wedi parhau yn gymharol sefydlog yn ystod y flwyddyn.

4.3.5 Nodir bod y **Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf) (BC-3)** yn 14.5 ar gyfer chwarter 3 sy'n lleihad o'r 20.3 ar gyfer chwarter 2 a 28.6 ar gyfer chwarter1.

4.3.6 Rwyf wedi gofyn iddynt wneud gwaith pellach i edrych ar y wybodaeth sydd y tu cefn i'r ffigyrau a amlinellir ar gyfer y mesurau uchod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

4.3.7 Nid ydym mewn sefyllfa eto i allu cadarnhau mesurau ar gyfer yr **Uned Dŵr ac Amgylchedd.** Er bod mesurau drafft wedi eu cynnig wyf wedi gofyn iddynt wneud gwaith pellach er mwyn sicrhau eu bod yn mesur y pethau sy'n bwysig i drigolion Gwynedd.

**4.4 ADRAN RHEOLEIDDIO**

4.4.1 Dim ond y maes carbon sydd o fewn fy mhortffolio i yn yr Adran hon. Caiff allyriadau carbon yng Ngwynedd effaith niweidiol ar yr amgylchedd lleol yn ogystal â chyfrannu tuag at effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel byd eang. Mae'r Cyngor yn chwarae ei ran trwy leihau allyriadau carbon sy'n deillio o'r defnydd o ynni o ffynonellau megis adeiladau annomestig (swyddfeydd ac ati).

4.4.2 Fel yr ydych yn ymwybodol, ar hyn o bryd yn flynyddol y cesglir y mesur **Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig (Eiddo10).**

4.4.3 Erbyn hyn, fodd bynnag, mae gennym y gallu i edrych ar y defnydd o ynni o fewn adeiladau yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd chwarter 3 mae **Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau hyd yma yn ystod y flwyddyn gyfredol** yn -3.40.

4.4.4 Yn ychwanegol i'r arbedion sydd eisoes wedi eu sicrhau byddwn hefyd yn eich cyfeirio at y ffaith y bydd arbedion ychwanegol o **£10,743** o'r Gronfa Wella a **£213,679** o Gronfa Salix wedi eu rhyddhau erbyn diwedd 2021/22 o ganlyniad i fod wedi buddsoddi i arbed yn y maes ynni. Bydd y symiau yma ar gael i gyfrannu tuag at yr arbedion ychwanegol i'w cyflawni.

5 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

5.1 Mae'r oll o'r arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau sydd wedi'u rhaglennu i'w cyflawni yn 2016/17 wedi eu gwireddu.

5.2 Fel yr adroddwyd ym mis Medi, mae tri chynllun hanesyddol gwerth cyfanswm o £100,000 heb eu gwireddu (Toiledau Cyhoeddus, Arbedion Ynni Ffridd Rasus a Rhesymoli Banciau Ailgylchu) gan yr **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** ond mae rhaglen waith yn bodoli er eu symud yn eu blaenau.

5.3 Er bod her yn bodoli gyda gwireddu'r cynllun Toiledau Cyhoeddus, rhagwelir y bydd posib symud ymlaen i wireddu'r arbedion o 2017/2018 ymlaen, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 17 Ionawr 2017 i fabwysiadu'r Cynllun (amgen) Partneriaethu gyda Chynghorau Cymuned a Thref.

5.4 Er bod cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu y rhan fwyaf o gynlluniau **2017/18 - 2018/19**, mae ychydig o bryder bellach gyda dau ohonynt lle'r wyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar wahanol opsiynau. Byddaf yn adrodd yn ôl gydag unrhyw addasiadau a awgrymir pan fydd y gwaith yn aeddfed.

5.5 Mae gwaith pellach wedi'i wneud i edrych ar broffil yr arbedion ar gyfer y Cynllun Rheoli Carbon ac erbyn hyn gallwn gadarnhau'r proffil o £155,000 a

ragwelwyd. Bydd yr arbedion yn cael eu gwireddu dros gyfnod y Cynllun Rheoli Carbon, sef y cyfnod hyd at 2020/21, yn hytrach na gwireddu'r arbediad cyfan yn 2017/18 fel y nodir isod.

| **Proffil presennol**: **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 155,000 | 0 | 0 | 0 | 155,000 |

5.6 O ganlyniad, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ffigyrau proffil amgen isod ar gyfer y Cynllun Rheoli Carbon:

| **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 49,740 | 15,260 | 40,000 | 50,000 | 155,000 |

5.7 Mae'r **Adran Ymgynghoriaeth** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau arbedion 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r flwyddyn ganlynol lle mae'r oll ohonynt ar y trywydd cywir.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad hwn yn un agored a pur gadarnhaol. Mae'n dda gweld perfformiad cystal, yn arbennig y perfformiad ailddefnyddio ailgylchu a chompostio.

**ii. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwdau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adroddiad yma rhoi adlewyrchiad teg a cytbwys o sefyllfa'r gwasanaethau. O safbwynt yr agweddau ariannol, mae oblygiadau'r penderfyniad i sefydlu proffil amgen wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun y rhaglen arbedion ehangach, ac rwyf yn fodlon y byddai hyn yn rhesymol ac yn bosib o fewn yr adnoddau y disgwylir i fod ar gael.

**7.2 Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad